Eisteddfod Gadeiriol Swyddffynnon 2026

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar nos Wener, 27ain Chwefror 2026 yn Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid. Y Beirniad eleni oedd Helen Medi Williams, Rhydyfelin (cerdd) Sara Down-Roberts, Aberystwyth (llefaru) a Gillian Jones, Drefach (llenyddiaeth). Y Cyfeilydd oedd Manon Jones, Pontrhydfendigaid, yr Arweinyddion oedd Efan Williams, Manon Mai Rhys Jones, Mair Humphreys ac Annwen Davies. Dymunwn ddiolch i bawb ddaeth i gefnogi yr Eisteddfod, boed yn y cystadlaethau llwyfan, ysgrifenedig, yn dysgu'r unigolion, trwy roi tlws, cyfrannu rhodd ariannol, cynorthwyo gyda'r lluniaeth a'r drysau a gosod y blodau – diolch i bawb. Diolch hefyd i Bwyllgor Neuadd Pantyfedwen a Phwyllgor Eisteddfod Teulu James, Pantyfedwen am bob cymorth a chefnogaeth.

Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Mike Lewis, Afallon cyflwynwyd hwy gan Annwen Davies a chafwyd araith gan Enid yn son amdani yn blentyn yn mynychu Ysgol fach Swyddffynnon a'r atgofion o Aled, ei mhab yn cystadlu yn yr Eisteddfod. Llongyfarchodd aelodau'r pwyllgor am ei dyfal-barhad i gadw'r Eisteddfod i fynd a hithau'n 152 mlwydd oed eleni. Diolch iddynt am ei rhodd haelionus i gronfa'r Eisteddfod. Cyflwynwyd blodau i Enid gan Mair Humphreys.

Bardd y Gadair oedd Enfys Hatcher, Llanddewi Brefi. Derbyniodd gadair fechan o waith Jeff Jones, Llanafan am lunio Cerdd ar y testun "Pontydd". Roedd seremoni'r Cadeirio yng nghofal John Jones, Ffair Rhos, cyrchwyd y bardd buddugol i'r llwyfan gan Annwen Davies a Manon Mai Rhys Jones, cyflwynwyd y gadair i Enfys gan Annwen Isaac. Cyfarchwyd y bardd buddugol gan John a Menna Jones.

Ennillwyd Tlws yr Ifanc gan Erin Trysor James-Lynch, derbyniodd dlws yn rhoddedig gan Dafydd Jones a'r teulu Pantyrhen, Ciliau Aeron am lunio darn o lenyddiaeth ar y testun "Cyffro". Cyrchwyd Erin i'r llwyfan gan Mair Humphreys ac Annwen Isaac a cyfarchwyd gan Efan Williams, cyn athro i Erin!

Cafwyd presenoldeb ein Cynghorydd Sirol Wyn Evans yn y seremoni hefyd. Canwyd gweddi'r orsedd a chân y cadeirio gan Dafydd Jones a'r Ffanfariwr oedd Efan Williams.

Canlyniadau – Llefaru, Llenyddiaeth a Llawysgrifen

Cyfyngedig dan 6: Awen Jones.
Llefaru bl. 2 ac iau: Awen Jones.
Llefaru bl. 3 a 4: Trefor Davies
Parti Llefaru Cynradd: Ysgol Pontrhydfendigaid
Llefaru bl. 5 a 6: Ani Hughes
Parti Llefaru agored: Drudwns, Aberystwyth
Darllen darn o'r ysgrythur: Maria Pugh
Her Adroddiad: Lowri Steffan
Brawddeg: Gaenor Mai Jones
Limeric: Megan Richards
Brysneges: Megan Richards
Llawysgrifen Agored: Ann Owen

Canlyniadau – Cerdd

Cyfyngedig dan 6: Awen Jones
Unawd bl.2 ac iau: Elsi
Unawd bl. 3 a 4: Heti Evans
Parti Canu Cynradd: Ysgol Pontrhydfendigaid
Unawd offeryn cerdd cynradd: Arthur Evans
Unawd bl. 7, 8 a 9: Rheon
Unawd offeryn cerdd Uwchradd: Guto Davies
Unawd dan 18: Awen
Alaw Werin: Carys Haf Jones
Parti Canu Agored: Parti Camddwr
Unawd Sioe Gerdd: Osian Jenkins
Unawd dan 30: Guto Lewis
Her Unawd: Efan Williams
Unawd Gymraeg: Efan Williams